Yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

Is-adran Diogelu'r Cyhoedd

A ydych *chi* yn defnyddio ysgolion?

A ydych yn defnyddio ysgolion *yn ddiogel*?

√ Yn bodloni safonau
Prydain neu Ewrop
BS 2037
BS 1129
BS 7377
BS EN 131
(neu EN 131)

Y Ffordd Gywir

√ Nid yw'r ysgol wedi'i difrodi.

√ Yr uchder iawn ar gyfer y gwaith

√ Esgidiau gwastad

√ Ffyn (grisiau) glân

√ Pedair troed gwrthlithro

√ Peidio â gorymestyn

√ Gafael dda

√ Yn wynebu'r gwaith

√ Y gwaelod yn wastad ac yn gadarn

Peidiwch â bod yn un o'r ystadegau – ‘ BYDDWCH YN DDIOGEL’!

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn print bras, Braille neu ar gasét ffoniwch ☎01267 228925

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk

SCH64/01/06/b

A wyddech chi fod, yn 2005:

- 27,000 o bobl wedi cwympo oddi ar ysgolion;
- 1,200 wedi cael eu hanafu'n ddifrifol;
- 13 wedi cael eu lladd!

Cynghorion ar gyfer Defnyddio Ysgol yn Ddiogel

Dilynwch y cynghorion diogelwch hyn:

- **Archwiliwch yr ysgol.** Gwiriwch yr ysgol i weld a oes unrhyw sgriwiau, golfachau neu ffyn (grisiau) yn rhydd ac y byddai gofyn ichi eu cyweirio cyn rhoi'r ysgol i gadw dros y gaeaf.
- **Gosodwch yr ysgol yn ei lle yn gywir.** Dylai pob ysgol gael ei gosod ar wyneb gwastad, cadarn. Ni ddylai fod saim nac unrhyw beth ar yr wyneb a allai beri i'r ysgol lithro. Peidiwch â defnyddio ysgol ar lawr anwastad.
- **Dewiswch yr ysgol iawn ar gyfer y gwaith.** Os ydych yn gweithio yn weddol isel, megis yn golchi ffenestri yn y tŷ, dewiswch stôl step neu ysgol gyffredin. Mae ysgolion y gellir eu hestyn yn ddelfrydol ar gyfer gweithio'r tu allan pan fydd angen cyrraedd man uchel e.e., cafnau ar do tŷ.
- **Cymerwch ofal wrth symud deunyddiau pan fyddwch ar yr ysgol.** Byddwch yn ofalus wrth wthio neu dynnu unrhyw beth oddi ar silffoedd pan fyddwch ar yr ysgol. Gallech golli'ch cydbwysedd a chwympo.

- **Symudwch yr ysgol yn agosach at y gwaith bob amser.** Gallech golli'ch cydbwysedd pe baech yn gorymestyn neu bwyso gormod i un ochr pan fyddwch ar yr ysgol.
- **Byddwch yn ofalus wrth ddringo. Gofynnwch am gymorth os oes angen.** Byddwch yn ddiogel. Gofynnwch i rywun ddal yr ysgol tra byddwch yn ei dringo. Cadwch at ganol ffyn yr ysgol wrth ichi ddringo, gan ddal ochrau'r ysgol â'ch dwy law. **Dylai'r ddwy law fod yn wag wrth ichi ddringo'r ysgol.**
- **Peidiwch â defnyddio ysgol lle ceir drws.**
- **Gofalwch eich bod yn gwisgo'r esgidiau cywir** a bod y gwadnau yn lân ac yn sych.
- **Osgowch gario llwythi trymion i fyny/i lawr yr ysgol.**
- **Peidiwch â gorlwytho'r ysgol – gall ysgol dorri.**

Edrychwch a welwch y canlynol :

- Hollt neu grac;
- Tolc neu ddarn wedi plygu;
- Ffyn coll;
- unrhyw ddarnau rhydd.

Peidiwch â defnyddio'r ysgol:

- os nad yw mewn cyflwr da;
- os yw wedi cael ei pheintio – gall paent guddio unrhyw namau.

Gofalwch bod eich ysgol yn ddiogel
Cwblhewch eich rhestr gwirio ysgol.

Mae mewn cyflwr cyffredinol da (yn lân ac yn sych, ac nid oes arni baent gwlyb, olew, mwd ac ati) ☐
Nid oes unrhyw graciau ☐
Nid oes unrhyw ffyn ar goll na darnau yn rhydd ☐
Nid yw'r ochrau (fertigol) wedi cael eu difrodi na'u plygu ☐
Nid yw'r pren wedi camdroi na hollti ☐
Nid oes unrhyw fetel wedi rhydu ☐
Nid oes unrhyw ymylon miniog na tholciau (metel). ☐
Nid oes unrhyw ffyn (metel) wedi Plygu ☐

A yw'r gorchuddion/darnau rwber ar y traed yn eu lle ac mewn cyflwr da? **Ydynt/Nac ydynt**

A oes unrhyw ddifrod i'r ffyn/grisiau neu i'r platfform ar frig yr ysgol fach? **Oes/Nac oes**

Os na allwch roi tic ym mhob un o'r bylchau, peidiwch â defnyddio'r ysgol!

Sylwer: Peidiwch byth â pheintio ysgolion nac ysgolion bach gan y gallai hyn guddio namau peryglus. Gellir diogelu ysgol bren drwy ddefnyddio farnais clir neu gymysgedd tryloyw i atal pydru.